NEWYDDION YSGOL PENRHYN-COCH

Yn ystod y tymor bu dwy aelod o staff yr ysgol yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-blais. Serch hynny mae'n braf gwybod bod Mrs Evans a Mrs Scurlock adre ac yn gwella. Dymunwn llwyr wellhad buan iddynt. Yn y cyfamser da oedd croesawu Mrs Louisa Phillips a Mrs Evans i'r ysgol yn eu lle.

Bu'r ysgol yn brysur yn ystod y mis diwethaf, gyda llawer c weithgareddau yn cael eu cynnal. Un o'r prif ddig-wyddiadau, mae'n amlwg, oedd Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhaliwyd yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth ar Fawrth 7ed. Carem longyfarch Meilyr Howells am ennill ar yr unawd pres a dymunwn bob llwyddiant iddo yn yr Eisteddfod Sir. Rydym hefyd yn llongyfarch Rhian Dobson am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth adrodd dan 8 oed, ac i gôr yr ysgol am ddod yn ail yn eu cystadleuaeth. Diolchwn i Mr Ceris Gruffudd am gyfeilio i'r unawdwyr pres ac i'r côr. Diolchwn hefyd i'r rhieni a'r athrawon a fu'n stiwardio ac yn cefnogi, ac i bob plentyn a gymerodd ran, gan wneud yr Eisteddfod yn un mor llwydd-iannus.

Yn ystod y mis diwethaf croesawyd tri phlentyn newydd i'r ysgol sef Alexander Hosie-Walker, Thamasin Spen-cer a Claire Thompson. Y mae'r tri yn ddisgyblion yn nosbarth Mrs Williams.